


Mynegai Cerdded a Beicio 2021

Caerdydd



Cyhoeddwyd Mai 2022

Rhagair

Ein gweledigaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio yng Nghaerdydd



Pobl a lleoedd sydd wrth galon y gwaith y mae Sustrans yn ei gyflawni yng Nghymru. Rydym yn ceisio datblygu ein gweledigaeth ar gyfer lleoedd iachach a bywydau hapusach trwy

ei gwneud hi'n haws i bobl ledled Cymru gerdded, olwyno a beicio.

Mae gweledigaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer gwneud cerdded a beicio yn ddewis cyntaf ar gyfer teithiau bob dydd yn y ddinas wedi'i chefnogi yn y blynyddoedd diwethaf gyda buddsoddiad wedi'i dargedu mewn isadeiledd teithio llesol.

Mae'r ffocws hwn ar gerdded a beicio wedi arwain at amrywiaeth eang o bobl yn mwynhau mynediad at lwybrau diogel sy'n gwella eu cymunedau. Mae'r pandemig Covid-19 wedi amlygu gwerth a phwysigrwydd y cysylltiadau hyn wrth sicrhau ansawdd bywyd.

Gwyddom mai'r rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig yn ein cymdeithas sy'n cyfrannu leiaf at effeithiau negyddol traffig ffyrdd ond eto nhw sy'n dioddef fwyaf; nhw hefyd sy'n wynebu mwy o rwystrau i gael mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy a llesol.

Mae'r adroddiad hwn yn ein galluogi i ddadansoddi'r data ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig sy'n ein galluogi i gael dealltwriaeth fanylach ynghylch y grwpiau sy'n teimlo y gallant deithio'n llesol

yng Nghaerdydd. Mae hwn yn gam cyntaf pwysig i ddeall cyfranogiad a rhwystrau, yn ogystal â chreu system drafnidiaeth sydd wirioneddol yn gweithio i bawb.

Daw buddion eang pan fo mwy o bobl yn cymryd rhan mewn teithio llesol, ar lefel bersonol ac mewn cyd-destun byd-eang ehangach. Gwyddom, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, fod angen inni weld newid mawr yn y ffordd yr ydym yn teithio, yn enwedig ar gyfer teithiau byrrach.

Yma yng Nghymru, mae'r llywodraeth wedi gosod targedau i leihau allyriadau carbon gan 43% erbyn 2030 a 79% erbyn 2050. Yng Nghaerdydd, daw 41% o'r holl allyriadau carbon o drafnidiaeth a gwyddom fod newid i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy yn allweddol i gynlluniau Caerdydd i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r adroddiad hwn yn ddangosydd pwysig o'r sefyllfa bresennol, yn ogystal ag archwiliad o'r rhwystrau sy'n dal i fodoli.

Mae heriau, heb amheuaeth, o ran sut y gall Caerdydd gyflawni ei nod o ddod yn ddinas ffyniannus, wydn a charbon isel, wedi'i phweru gan deithio llesol. Mae Mynegai Cerdded a Beicio eleni'n cyflwyno darlun clir o sefyllfa'r ddinas ar hyn o bryd, yn ogystal ag amlinellu cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd ac aelodau o'r gymuned ar draws y ddinas i helpu i gyflawni'r nod hollbwysig hwn.

Christine Boston,
Cyfarwyddwr Sustrans Cymru



Cynnwys

4 Crynodeb o'r adroddiad

6 Cerdded yng Nghaerdydd

8 Beicio yng Nghaerdydd

10 Buddion cerdded

12 Buddion beicio

14 Atebion cerdded

16 Atebion beicio

18 Atebion cymdogaeth

20 Datblygu Caerdydd

22 Edrych ymlaen

Mynegai Cerdded a Beicio

Y Mynegai Cerdded a Beicio (Bywyd Beicio gynt) yw'r asesiad mwyaf o gerdded a beicio mewn ardaloedd trefol yn y DU ac Iwerddon. Dyma'r flwyddyn gyntaf i gerdded gael ei gynnwys.

Fe'i cyflwynir gan Sustrans mewn cydweithrediad â 18 o ddinasoedd ac ardaloedd dinesig. Mae pob dinas yn adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at wneud cerdded a beicio yn ffyrdd mwy deniadol ac arferol o deithio.

Mae'r Mynegai Cerdded a Beicio yn adrodd bob dwy flynedd. Dyma'r pedwerydd adroddiad ar Gaerdydd a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd. Daw'r data yn yr adroddiad hwn o 2021 ac mae'n cynnwys data cerdded a beicio lleol, modelu ac arolwg annibynnol o 1,319 o drigolion 16 oed neu hŷn yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mehefin ac Awst 2021 ar ôl i gyfyngiadau teithio Covid-19 ledled y DU gael eu codi. Cynhaliodd y sefydliad ymchwil cymdeithasol NatCen yr arolwg, sy'n cynrychioli'r holl drigolion, nid dim ond y rhai sy'n cerdded neu'n beicio.

Ar draws yr adroddiad hwn rydym wedi cynnwys cymariaethau â data 2019 pan fo data ar gael.

Diolch i bobl Caerdydd a gymerodd ran yn yr arolwg a rhannu eu straeon gyda ni.

Ceir rhagor o fanylion am bob adroddiad Mynegai Cerdded a Beicio yn www.sustrans.org.uk/walkingcyclingindex



Diffinio olwyno

Rydym yn cydnabod bod rhai pobl, er enghraifft defnyddwyr cadeiriau olwyn neu sgwteri symudedd, yn uniaethu â'r term olwyno yn hytrach na cherdded. Felly rydym yn defnyddio'r termau cerdded ac olwyno gyda'n gilydd ac yn ystyried bod cerdded ac olwyno yn cynnwys defnyddio cymhorthion symudedd a choetsis.

Mae holl ymatebion yr arolwg cerdded yn yr adroddiad hwn yn cynnwys ymatebion gan bobl sy'n olwyno. Fodd bynnag, sylwer ein bod yn defnyddio cerdded fel modd llaw-fer ar gyfer cerdded ac olwyno ill dau ar gyfer labeli graff.

Crynodeb o'r adroddiad

Caerdydd

Poblogaethⁱ

366,903




Ardal yr arolwg

Effaith y pandemig

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith enfawr ar sut, pryd a faint rydym yn teithio, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus a gyrru.

Defnydd trafndiaeth yn ystod y pandemig coronafeirws (Covid-19), Yr Adran Drafndiaeth, Mehefin 2020.

Trigolion sy'n teithio yn y moddau canlynol bum diwrnod yr wythnos neu fwy yng Nghaerdydd



Mae cyfranogiad mewn cerdded, olwyno a beicio yn rheolaidd wedi aros tua'r un peth ers 2019.

53%
o drigolion yn cerdded o leiaf bum diwrnod yr wythnos
55% yn 2019


23%
o drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos
22% yn 2019

Nid yw cyfranogiad cerdded, olwyno a beicio yn gyfartal


Mae gwahaniaethau yn bodoli rhwng lefelau cerdded a beicio ymhlith grwpiau amrywiol. Er enghraifft mae menywod yn beicio llai na dynion.

Roedd maint y sampl ar gyfer ymatebwyr a nododd eu rhywedd 'mewn ffordd arall' yn rhy isel i fod yn ystadegol arwyddocaol ac felly nid yw wedi'i gyflwyno yma.

Cyfran y trigolion sy'n cerdded o leiaf bum niwrnod yr wythnos




Cyfran y trigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos




Nid yw pob preswlydd yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt yn eu cymdogaeth


Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch cerdded yn dda



Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch beicio yn dda



Cyfran y trigolion sy'n teimlo bod croeso iddynt ac sy'n gyfforddus yn cerdded neu'n treulio amser ar strydoedd eu cymdogaeth



Mae grŵp economaidd-gymdeithasol yn ddsbarthiad sy'n seiliedig ar alwedigaeth a gynhelir gan y Market Research Society. Grwpiau proffesiynol a rheolaethol yw A a B. Grŵp C1 yw rolau goruchwyliol/clerigol a myfyrwyr. Gweithwyr medrus yw grŵp C2. Mae grwpiau D ac E yn alwedigaethau llaw lled-fedrus a di-grefft, pobl sy'n cadw tŷ a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.

i. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 NOMIS. Dyma'r diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Caerdydd.
ii. Teithio fel gyrrwr neu deithiwr mewn car, fan neu feic modur. Yn 2019, nid oedd y cwestiynau'n cynnwys teithio ar feic modur.

Mae pawb ar eu hennill pan fydd mwy o bobl yn cerdded, yn olwyno ac yn beicio

Bob blwyddyn, mae cerdded a beicio yng Nghaerdydd:



Yn atal

804

o gyflyrau iechyd
hirdymor difrifol



Yn creu

£221.1 miliwn

mewn budd economaidd i
unigolion ac i'r rhanbarth



Yn arbed

17,000 o dunelli

o allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae cerdded, olwyno a beicio yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Bob dydd, mae cerdded a beicio yng Nghaerdydd yn tynnu hyd at

99,000 o geir oddi ar y fforddⁱⁱⁱ

Fodd bynnag, mae

63.7 miliwn

o deithiau hyd at dair milltir yn cael eu gyrru yng Nghaerdydd bob blwyddyn

Pe byddai **80%** o'r teithiau hyn yn cael eu cerdded neu eu beicio gallai arbed tua

21,000 o dunelli

o allyriadau nwyon tŷ gwydr^{iv}

Mae trigolion eisiau gweld mwy o arian ar gyfer cerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

Canran y trigolion a hoffai weld mwy o wariant gan y llywodraeth ar:

53% ar gerdded

58% yn 2019

55% ar feicio

62% yn 2019

69% ar drafnidiaeth gyhoeddus

73% yn 2019

28% ar yrru

32% yn 2019

Byddai hyn yn helpu i gefnogi cymdogaethau sy'n brafiach i fyw ynddynt

Ymysg trigolion Caerdydd:

67% yn cefnogi

18% yn gwrthwynebu

mwy o lwybrau beicio ar hyd ffordd, wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr

79% yn cefnogi

6% yn gwrthwynebu

creu mwy o gymdogaethau 20 munud^v

65% yn cefnogi

14% yn gwrthwynebu

creu mwy o gymdogaethau traffig isel

62% yn cytuno

18% yn anghytuno

y byddai cynyddu lle i bobl gymdeithasu, cerdded a beicio ar eu stryd fawr leol yn gwella eu hardal leol

79% yn cytuno

5% yn anghytuno

y byddai mwy o fesurau i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus yn gwella eu hardal leol

46% yn cytuno

22% yn anghytuno

y byddai cau strydoedd y tu allan i ysgolion lleol i geir yn ystod amseroedd gollwng a chasglu ysgol yn gwella eu hardal leol

iii. Yn seiliedig ar gerdded a beicio gan drigolion sy'n byw mewn cartref gyda char. Nid yw'n cynnwys beicio er hamdden na theithiau cerdded er hamdden. iv. Yn seiliedig ar y syniad fod bob un o'r teithiau hyn yn 1.5 milltir o hyd. v. Gweler y diffiniad ar dudalen 14.

Cerdded yng Nghaerdydd

Cyfranogiad cerdded ac olwyno, diogelwch a boddhad

Cyfranogiad cerdded ac olwyno

Yn gyffredinol yng Nghaerdydd, mae nifer y bobl sy'n cerdded ac yn olwyno'n rheolaidd (o leiaf bum niwrnod yr wythnos) wedi aros tua'r un peth ers y pandemig.

Mae cerdded ac olwyno yn aml yn cael eu hanwybyddu wrth drafod trafndiaeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith ei fod yn ddefnydd effeithlon o ofod, yn dda i'n hiechyd ac nad yw'n creu unrhyw effaith amgylcheddol.

95%

o'r holl drigolion yn cerdded

96% yn 2019

53%

o drigolion yn cerdded o leiaf bum diwrnod yr wythnos

55% yn 2019

Cyfran y trigolion sy'n cerdded neu'n olwyno o leiaf bum niwrnod yr wythnos

Rhyweddⁱ

50% o fenywod

54% yn 2019

56% o ddynion

56% yn 2019

Ethnigrwydd

45% o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig

60% yn 2019

54% o bobl wynion

55% yn 2019

Rhywioldeb

60% o bobl LGDQ+

52% o bobl heterorywiol

Oedran

56% o bobl 16–25 oed

67% yn 2019

56% o bobl 26–35 oed

58% yn 2019

53% o bobl 36–45 oed

49% yn 2019

52% o bobl 46–55 oed

50% yn 2019

56% o bobl 56–65 oed

49% yn 2019

46% o bobl 66+ oed

51% yn 2019

Anabledd

50% o bobl anabl

50% yn 2019

55% o bobl nad ydynt yn anabl

57% yn 2019

Grŵp economaidd-gymdeithasolⁱⁱ

54% o AB

52% yn 2019

59% o C1

62% yn 2019

36% o C2

52% yn 2019

47% o DE

51% yn 2019

i. Roedd maint y sampl ar gyfer ymatebwyr a nododd eu rhywedd 'mewn ffordd arall' yn rhy isel i fod yn ystadegol arwyddocaol ac felly nid yw wedi'i gyflwyno yma.

ii. Mae grŵp economaidd-gymdeithasol yn ddsbarthiad sy'n seiliedig ar alwedigaeth a gynhelir gan y Market Research Society. Grwpiau proffesiynol a rheolaethol yw A a B. Grŵp C1 yw rolau goruchwyliol/ clerigol a myfyrwyr. Gweithwyr medrus yw grŵp C2. Mae grwpiau D ac E yn alwedigaethau llaw lled-fedrus a di-grefft, pobl sy'n cadw tŷ a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.

Diogelwch a boddhad cerdded ac olwyno

Mae gwahaniaethau pwysig yn bodoli o ran pa mor ddiogel y mae pobl yn teimlo wrth gerdded neu olwyno. Mae diogelwch yn cynnwys diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch personol.

71%

o drigolion yn meddwl bod lefel y diogelwch ar gyfer cerdded yn dda

56%

o drigolion yn meddwl bod lefel diogelwch cerdded ar gyfer plant yn dda

Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch cerdded neu olwyno'n dda yn eu hardal leol

Rhywedd

69% o fenywod



73% o ddynion



Ethnigrwydd

65% o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig



72% o bobl wynion



Rhywioldeb

61% o bobl LGDQ+ people



71% o bobl heterorywiol



Oedran

72% o bobl 16–25 oed



72% o bobl 26–35 oed



67% o bobl 36–45 oed



70% o bobl 46–55 oed



72% o bobl 56–65 oed



72% o bobl 66+ oed



Anabledd

61% o bobl anabl



74% o bobl nad ydynt yn anabl

Grŵp economaidd-gymdeithasol

78% o AB



67% o C1



63% o C2




65% o DE



77%

o drigolion yn meddwl bod eu hardal leol yn gyffredinol yn lle da i gerdded



Peter Bell, Y Rhath



Rwy'n gweld cerdded yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â'm hamgylchedd a chael ymarfer corff. Rwy'n adnabod fy nghymdogaeth yn well ac mae'n gymdeithasol yn awtomatig – eich rhoi chi ochr yn ochr â phobl go iawn, sy'n bwysicach nag erioed ar ôl Covid. Rwy'n taro i mewn i ffrindiau a chymdogaion ac mae'n hawdd sgwrsio. Mae cerdded yn fy nghysylltu â fy nghymuned.

Mae fy ngwraig a minnau wrth ein boddau'n byw yn y Rhath; mae'n lle bach ac mae'n hawdd cerdded o'i gwmpas. Mae ein hanghenion dyddiol o fewn tafliad carreg i ni. Dyma ichi Gymdogaeth 15 Munud ar waith. Gallwn gyrraedd canol y ddinas ar droed mewn 30 munud, os byddwn yn mynd ymhellach, awn ar y bws. Fel arfer gallwn gerdded rhan o'r ffordd.

Mae Caerdydd yn dal i flaenoriaethu ceir, felly mae rhai heriau, yn enwedig ffyrdd a chyffyrdd prysur.



Beicio yng Nghaerdydd

Cyfranogiad beicio, diogelwch a boddhad

Cyfranogiad beicio

Yn gyffredinol yng Nghaerdydd, mae nifer y bobl sy'n beicio wedi cynyddu ers y pandemig. Er gwaethaf potensial llawer mwy, dim ond 23% o bobl sy'n beicio'n rheolaidd.ⁱ

Fodd bynnag, nid yw cyfranogiad beicio yn gyfartal. Gall rhwystrau i feicio fod yn llawer mwy amlwg i rai pobl. Diogelwch, gan gynnwys diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch personol, yw'r rhwystr unigol mwyaf i feicio.ⁱⁱ Yn galonogol, mae canfyddiadau ynghylch diogelwch beicio wedi gwella ers 2019.

46%

o'r holl drigolion yn beicio

43% yn 2019

23%

o'r holl drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos

22% yn 2019

Cyfran y trigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos

Rhywedd

16% o fenywod

14% yn 2019

30% o ddynion

31% yn 2019

Ethnigrwydd

19% o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig

20% yn 2019

24% o bobl wynion

23% yn 2019

Rhywioldeb

32% o bobl LHDQ+

21% o bobl heterorywiol

Oedran

31% o bobl 16–25 oed

25% yn 2019

22% o bobl 26–35 oed

29% yn 2019

30% o bobl 36–45 oed

25% yn 2019

23% o bobl 46–55 oed

24% yn 2019

22% o bobl 56–65 oed

21% yn 2019

8% o bobl 66+ oed

7% yn 2019

Anabledd

18% o bobl anabl

12% yn 2019

25% o bobl nad ydynt yn anabl

26% yn 2019

Grŵp economaidd-gymdeithasol

23% o AB

26% yn 2019

26% o C1

24% yn 2019

20% o C2

19% yn 2019

18% o DE

12% yn 2019

Diogelwch a boddhad beicio

39%

o'r holl drigolion yn meddwl
bod lefel diogelwch beicio
yn eu hardal leol yn dda

29% yn 2019

30%

o'r holl drigolion yn meddwl
bod lefel diogelwch
beicio i blant yn dda

17% yn 2019

45%

o'r holl drigolion yn meddwl
bod eu hardal leol yn lle
da i feicio yn gyffredinol

43% yn 2019

Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch beicio'n dda yn eu hardal leol

Rhywedd

34% o fenywod

27% yn 2019

42% o ddynion

31% yn 2019

Ethnigrwydd

44% o bobl o
grwpiau lleiafrifol ethnig

44% yn 2019

38% o bobl wynion

27% yn 2019

Rhywioldeb

35% o bobl LHDQ+

38% o bobl heterorywiol

Oedran

55% o bobl 16–25 oed

31% yn 2019

40% o bobl 26–35 oed

31% yn 2019

29% o bobl 36–45 oed

28% yn 2019

35% o bobl 46–55 oed

26% yn 2019

40% o bobl 56–65 oed

28% yn 2019

30% o bobl 66+ oed

29% yn 2019

Anabledd

32% o bobl anabl

29% yn 2019

42% o bobl nad ydynt yn anabl

29% yn 2019

Grŵp economaidd- gymdeithasol

40% o AB

31% yn 2019

36% o C1

27% yn 2019

38% o C2

28% yn 2019

44% o DE

27% yn 2019



Pam French, Llandaf

“““

Dechreuais i feicio bymtheg mlynedd yn ôl; cael beic i deithio i'r gwaith wnes i, ond cyn bo hir roeddwn i'n beicio i bobman!

Rwy'n beicio ar gyfer trafndiaeth gan fy mod yn casáu gyrru, mae'n hwyl ac yn well i fy iechyd. Mae gan ein beic cargo gapasiti enfawr felly gallaf ei ddefnyddio yn lle car. Mae'n rhatach ac rwy'n ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth, o'r plant i siopa.

Mae gennym ni fynediad hawdd at rai ardaloedd, ond byddem wrth ein bodd yn gweld isadeiledd beicio yn cael ei wella ledled Caerdydd.

Hoffwn weld mwy o leoedd parcio beiciau diogel, mwy o lwybrau di-draffig a mwy o gynlluniau fel Next Bike a Bysiau Beicio i ysgolion.

Buddion cerdded

Pam mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn cerdded neu'n olwyno

Mae'r niferoedd mawr o deithiau cerdded ac olwyno yng Nghaerdydd yn creu buddion iechyd, lles, economaidd ac amgylcheddol pwysig i bawb.

Mae trigolion Caerdydd yn cerdded neu'n olwyno 18 o weithiau o amgylch y byd bob dydd

Gwnaed

151.5 miliwn

o deithiau cerdded ac olwyno yng Nghaerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cyfateb i

160.7 miliwn o filltiroedd

= 440,000 milltir y dydd.

Mae hyn yn cyfateb i bob preswlydd yn treulio

6 diwrnod

yn cerdded neu'n olwyno yn barhaus yn y flwyddyn ddiwethaf

Teithiau cerdded ac olwyno blynyddol yn ôl pwrpasⁱ

Mwynhad neu ffitrwydd – oedolion a phlant (gan gynnwys rhedeg):
61,800,000


41%

Cyrchfan – oedolion yn unig (e.e. gwaith, ysgol, siopa):
77,600,000

51%

Ysgol – plant yn unig:
12,100,000

8%



Mae cerdded ac olwyno o fudd i drigolion a'r economi leol yn y rhanbarth

Yng Nghaerdydd, y budd economaidd blynyddol net i unigolion a chymdeithas o bob taith gerdded ac olwyno yw

£182.3 miliwn

O'r cyfanswm hwn, mae

£2 filiwn

yn dod gan bobl â char sy'n dewis cerdded neu olwyno fel dull teithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

5c

yw'r budd net o bob milltir a gaiff ei cherdded neu olwyno yn lle gyrru




Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfrifo gwerth ariannol costau a buddion gyrru a cherdded. Mae hyn yn cynnwys amser teithio, costau rhedeg cerbydau, costau meddygol, absenoldeb o'r gwaith, tagfeydd, isadeiledd, ansawdd aer lleol, sŵn, nwyon tŷ gwyrdd a threthi.

i. Mae teithiau er mwynhad neu ffitrwydd yn cynnwys oedolion a phlant (gyda a heb oedolyn yn gwmpeini). Dangosir teithiau ysgol ar wahân ar gyfer plant yn unig.

Mae cerdded ac olwyno yn datgloi buddion iechyd i bawb

Mae cerdded yng Nghaerdydd yn atal 653 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn



Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron, canser y colon a'r rhefr.

Mae hyn yn arbed

£4.3 miliwn y flwyddyn

i'r GIG yng Nghaerdydd

cyfwerth â chost
140,000 o apwyntiadau meddyg teulu

Yn seiliedig ar gymhwyso data Caerdydd i offeryn MOVES Sport England sy'n cyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad ar gyfer iechyd chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Yng Nghaerdydd, mae manteision gweithgarwch corfforol cerdded

yn atal 175 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn

sy'n werth

£577 miliwnⁱⁱ

Sylwer fod teithiau cadair olwyn a sgwteri symudedd wedi'u modelu fel teithiau cerdded at ddibenion y modelau MOVES a HEAT.

Mae pobl yn cerdded ac yn olwyno mwy yn lle gyrru yn gwella ansawdd aer, gan roi arbedion blyneddol fel a ganlyn:

33,000 kg o NOx

a

4,600 kg o ronynnau

(PM₁₀ a PM_{2.5})

45% o drigolion yn cytuno bod yr aer yn lân yn eu hardal leol



Mae cerdded ac olwyno yng Nghaerdydd yn helpu i liniaru ein hargyfwng hinsawdd

Arbedir 11,000 tonn

o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn flynyddol drwy gerdded neu olwyno yn lle gyrru, sy'n cyfateb i ôl troed carbon



26,000 o bobl yn hedfan

o Gaerdydd i Tenerife

Mae trafnidiaeth bellach yn cyfrif am **16%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a phrif ffynonellau'r rhain yw'r petrol a disel a ddefnyddir mewn trafnidiaeth ffyrdd.

Rhwng 1990 a 2019, aeth allyriadau trafnidiaeth i lawr gan **4.7%** yn unig, tra bod allyriadau cyffredinol wedi gostwng **31%**.

Ffynhonnell: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr fesul Blwyddyn (llyw.cymru).

Mae cerdded ac olwyno'n cadw Caerdydd yn symud

Mae astudiaethau'n dangos bod cerdded neu feicio yn rhyddhau lle ar y ffyrdd o'i gymharu â gyrru.ⁱⁱⁱ Mae hyn yn helpu i gadw Caerdydd yn symud ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

Mae 86,000 o deithiau cerdded dwyffordd

yn cael eu gwneud bob dydd yng Nghaerdydd gan bobl a allai fod wedi defnyddio car.

iii. Litman, 2021. Evaluating Transportation Land Use Impacts. Yn seiliedig ar Eric Bruun a Vuchic, 1995. The Time-Area Concept.

Pe byddai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig byddai'n creu rhes

258 milltir o hyd

sy'n gyfwerth â'r pellter o Gaerdydd i Efrog.



ii. Yn seiliedig ar yr Europe Health Economic Assessment Tool (HEAT) gan Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd cerdded trwy amcangyfrif gwerth llai o farwolaethau o ganlyniad i symiau penodol o gerdded.

Buddion beicio


Pam mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn beicio

Mae trigolion Caerdydd yn beicio 6 o weithiau o amgylch y byd bob dydd

Bu gostyngiad mewn teithiau i'r gwaith ers 2019 wrth i fwy o bobl weithio o gartref. Fodd bynnag, cynyddodd lefelau beicio ar gyfer hamdden ac addysg oedolion.

Teithiau beicio blynyddol yn ôl pwrpas yng Nghaerdyddⁱ

2021:
15.5 miliwn o deithiau




Mae hyn yn gyfanswm o

50.7 miliwn o filltiroedd

= 140,000 milltir y dydd

2019:
16.7 miliwn o deithiau



Mae hyn yn creu cyfanswm o

47.2 miliwn o filltiroedd

= 130,000 milltir y dydd

Mae beicio o fudd i drigolion a'r economi leol yn y rhanbarth

Yng Nghaerdydd, y budd economaidd blynyddol net i unigolion a chymdeithas o'r holl deithiau beicio yw

£38.8 miliwn

O'r cyfanswm hwn, mae

£21.1 miliwn

yn dod gan bobl â char sydd wedi dewis beicio fel dull teithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

94c

yw'r budd net o bob milltir a gaiff ei beicio yn lle gyrru

£1.04 yn 2019



Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfrifo costau a buddion gyrru a beicio. Mae hyn yn cynnwys amser teithio, costau rhedeg cerbydau, costau meddygol, absenoldeb o'r gwaith, tagfeydd, isadeiledd, ansawdd aer lleol, swm, nwyon tŷ gwyr a threthi.

£35.9
miliwn
yn 2019


£22.7
miliwn
yn 2019

i. Mae teithiau hamdden yn cynnwys oedolion a phlant (gyda a heb oedolyn yn gwmpeini). Dangosir teithiau addysg ar wahân ar gyfer oedolion a phlant. Mae pob taith arall yn cyfeirio at oedolion yn unig.

Mae beicio yn datgloi buddion iechyd i bawb

124
yn 2019

Mae beicio yng Nghaerdydd yn atal 151 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn



Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron, canser y colon a'r rhefr.

Mae hyn yn arbed

£840,000
yn 2019

£1 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghaerdydd

cyfwerth â chost

28,000
yn 2019

33,000 o apwyntiadau meddyg teulu

Yn seiliedig ar gymhwyso data Caerdydd i offeryn MOVES Sport England sy'n cyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad ar gyfer iechyd chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Yng Nghaerdydd, mae manteision gweithgarwch corfforol beicio'n

atal 17 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn

16 yn
2019

sy'n cael ei brisio ar

£57 miliwnⁱⁱ

£49.5
miliwn
yn 2019

Mae pobl yn beicio mwy yn lle gyrru yn gwella ansawdd aer, gan roi arbedion blynyddol fel a ganlyn:

13,000 kg o NOx

14,000 kg
yn 2019

a

1,800 kg o ronynnau
(PM₁₀ a PM_{2.5})

1,800 kg
yn 2019

45% o drigolion yn cytuno bod yr aer yn lân yn eu hardal leol



Mae beicio yng Nghaerdydd yn helpu i liniaru ein hargyfwng hinsawdd

6,300
tunnell
yn 2019

Arbedir 6,200 tonnall

o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn cael ei arbed yn flynyddol drwy feicio yn lle gyrru, sy'n cyfateb i ôl troed carbon



15,000 o
bobl yn
2019

15,000 o bobl yn hedfan o Gaerdydd i Tenerife

Mae trafndiaeth bellach yn cyfrif am 16% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a phrif ffynonellau'r rhain yw'r petrol a disel a ddefnyddir mewn trafndiaeth ffyrdd.

Rhwng 1990 a 2019, aeth allyriadau trafndiaeth i lawr gan 4.7% yn unig, tra bod allyriadau cyffredinol wedi gostwng 31%.

Ffynhonnell: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr fesul Blwyddyn (llyw.cymru).

Mae beicio yn cadw Caerdydd yn symud

Mae astudiaethau'n dangos bod cerdded neu feicio yn rhyddhau lle ar y ffyrdd o'i gymharu â gyrru.ⁱⁱⁱ Mae hyn yn helpu i gadw Caerdydd yn symud ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

14,000
yn 2019

Mae 13,000 o deithiau beicio dwyffordd

yn cael eu gwneud bob dydd yng Nghaerdydd gan bobl a allai fod wedi defnyddio car.

iii. Litman, 2021. Evaluating Transportation Land Use Impacts. Yn seiliedig ar Eric Bruun a Vuchic, 1995. The Time-Area Concept.

Pe byddai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig byddai'n creu rhes

38 milltir

o hyd, sy'n gyfwerth â'r pellter o Gaerdydd i Gastell-nedd.

41 milltir
yn 2019



ii. Yn seiliedig ar yr Europe Health Economic Assessment Tool (HEAT) gan Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd beicio trwy amcangyfrif gwerth llai o farwolaethau o ganlyniad i symiau penodol o feicio.

Atebion cerdded


Beth fyddai'n helpu i wneud cerdded ac olwyno'n well?

Mae trigolion eisiau mwy o wasanaethau ac amwynderau o fewn pellter cerdded ac olwyno

Yn ddelfrydol, cerdded ddylai fod yr opsiwn trafnidiaeth fwyaf deniadol ar gyfer y mwyafrif helaeth o deithiau byr. Gall dinas gefnogi hyn trwy sicrhau bod llawer o'r pethau y mae eu hangen ar bobl i'w cael yn agos at ble mae pobl yn byw. Dylai'r amgylchedd cerdded fod yn ddiogel, yn gyfforddus, yn groesawgar ac yn ddeniadol.

Gelwir cymdogaethau lle gellir cyrraedd llawer o gyfleusterau ar droed yn gymdogaethau 20 munud. Gallwch gerdded o'ch cartref i lawer o'r pethau y mae eu hangen arnoch yn rheolaidd ac yn ôl o fewn 20 munud. Mae hyn yn cyfateb i tua 800m bob ffordd.

Pa ganran o drigolion fyddai'n gweld mwy o amwynderau a gwasanaethau lleol yn ddefnyddiol i'w helpu i gerdded neu olwyno mwy?




Mae **64%** o aelwydydd Caerdydd mewn cymdogaethau o o leiaf 40 annedd fesul hectar. Mae'r rhain yn gymdogaethau 20 munud neu gallant ddod yn gymdogaethau 20 munud.ⁱ

Nid oes digon o bobl mewn cymdogaethau o ddwysedd is i wneud llawer o fusnesau neu drafnidiaeth gyhoeddus leol yn ddichonadwy.ⁱⁱ

Mae **60%** yn cytuno y gallant gyrraedd llawer o leoedd y mae angen iddynt ymweld â hwy yn hawdd heb orfod gyrru.

Cyfran yr aelwydydd o fewn taith gerdded neu olwyno o 800m i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau canlynol



i. Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2021, Cod Dylunio Model Cenedlaethol.


ii. Sustrans, 2017. Cysylltu Teithio Llesol a Chludiant Cyhoeddus â Thwf a Chynllunio Tai.

iii. O leiaf dri math gwahanol o leoliadau diwylliannol a hamdden, e.e. caffis, tafarndai, neuaddau bingo, sinemâu, amgueddfeydd.

Mae trigolion eisiau strydoedd gwell

Mae yna lawer o ffyrdd i wneud ein strydoedd a'n cymdogaethau'n ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfforddus i bawb gerdded ynddynt.

Pa ganran o drigolion sy'n meddwl y byddai'r newidiadau hyn yn eu helpu i gerdded neu olwyno mwy?




Yng Nghaerdydd, mae gan:

38%
o ffyrdd A a B balmant sy'n lletach na 3m os nad oes rhwystr^{iv}

64%
o ffyrdd C ac annosbarthedig balmant sy'n lletach na 2m os nad oes rhwystr

79%
o drigolion yn cytuno y byddai mwy o fesurau i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus yn gwella eu hardal leol



Claire Lordan, Sblot



Rwy'n cerdded i lawer o leoedd allan o reidrwydd. Mae'n rhaid i mi ymweld â'r ysbyty o leiaf bob mis i gasglu presgripsiynau neu fynd â fy mechgyn i apwyntiadau. Mae gan fy meibion Caiden, 13, a Cruz, 11, ADHD.

Rydyn ni'n mwynhau cerdded, rydyn ni wedi arfer ag e ac yn aml dyma'r adeg mae fy mechgyn yn fwy agored ac yn siarad am bethau sy'n digwydd yn eu bywydau. Pan darodd Covid roeddwn i'n gweithio gartref. Mynd am dro oedd un o'r unig bethau y gallen ni ei wneud. Byddai fy mechgyn a minnau yn cerdded i fyny ac o gwmpas Parc Sblot i ollwng rhywbeth ar garreg drws eu neiniau a theidiau. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n glir hyd yn oed i fy meibion pa mor bwysig yw ymarfer corff a bod yn actif i'n hiechyd meddwl a'n lles. Roedd taith gerdded syml yn cael ei gwerthfawrogi llawer mwy nag o'r blaen.

Mae gwahaniaeth yng nghyflwr y ffyrdd rhwng ardaloedd yng Nghaerdydd, mae ochr ddwyreiniol y ddinas yn arbennig o wael. Hoffwn weld hyn yn cael ei gydbwyso gyda mwy o fannau gwyrdd, coed a gwell palmentydd ar gyfer ardaloedd llai cefnog.

iv. Mae ffyrdd A a B yn briffyrdd. Mae ffyrdd C a ffyrdd annosbarthedig yn ffyrdd mwy llai ac yn aml yn strydoedd preswyl.



Atebion beicio


Beth fyddai'n gwneud beicio yn well?

Mae llawer o drigolion Caerdydd eisiau beicio


Sut mae trigolion yn gweld eu hunain o ran beicio?

Nid ydynt yn beicio a ddim eisiau gwneud: **31%**
33% yn 2019

Nid ydynt yn beicio ond hoffent wneud: **28%**
27% yn 2019



Pa gyfran o drigolion a ddywedodd 'nad ydynt yn beicio ond hoffent wneud'?



Mae trigolion eisiau gwell isadeiledd beicio

Pa ganran o drigolion fyddai'n gweld cyfleusterau gwell yn help iddynt feicio mwy?

75%

Mwy o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth y ffordd, e.e. trwy barciau neu ar hyd dyfrffyrdd
83% yn 2019

Mae gan Gaerdydd:

37 milltir

o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth y ffordd
37 milltir yn 2019

72%

Mwy o lwybrau beicio ar hyd ffordd, sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr
80% yn 2019

4 milltir

o lwybrau beicio wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyrⁱⁱ
3 milltir yn 2019

73%

Mwy o lwybrau beicio lleol ag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach
75% yn 2019

1 filltir

o lwybrau ag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach
0.4 milltir yn 2019

69%

Gwell cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus (e.e. manau parcio diogel i feiciau mewn gorsafoddd trenau)
68% yn 2019

Mae yna **290** o leoedd parcio beiciau ar draws bob un o'r **20** gorsaf reilffordd yng Nghaerdydd

276 yn 2019

67%

o drigolion yn cefnogi adeiladu mwy o lwybrau beicio ar y ffordd sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol, hyd yn oed pan fyddai hyn yn golygu llai o le i draffig arall ar y ffordd
73% yn 2019

Mae **13%**

o aelwydydd o fewn 125m i'r lwybrau hyn
13% yn 2019

i. Er mwyn sicrhau cymaroldeb, mae'r ffigurau a roddir yn gywir ar 26 Mai 2021 ar gyfer pob adroddiad dinas.
ii. Nid yw hyn yn cynnwys traciau beicio dros dro a osodwyd yn ystod y pandemig.

Mae trigolion eisiau mwy o gefnogaeth i feicio

Pa ganran o drigolion sy'n meddwl y byddai'r mathau hyn o newidiadau yn eu helpu i feicio mwy?

41%

Cyrsiau hyfforddi beicio
a reidiau cymdeithasol
wedi'u trefnu

47% yn 2019

58%

Mynediad
at feic

37%

Mynediad at feic cargo (gyda
lle i gludo plant neu siopa)

36% yn 2019

56%

Mynediad at
neu welliannau
i gynllun rhannu
beiciau dinas

59%

Mynediad at storfa
feiciau ddiogel yn y
cartref neu'n agos ato

44%

Mynediad at
feic trydan

47% yn 2019

25%

Mynediad i feic wedi'i
addasu, e.e. beic tair
olwyn neu feic llaw

21% yn 2019

Cynllun rhannu beiciau Caerdyddⁱⁱⁱ

1,030

o feiciau ar gael
i'w defnyddio

650 yn
2019

101

o orsafoedd
rhannu beiciau

72 yn
2019

358,327

o deithiau'r flwyddyn

403,069
yn 2019

Lladradau beiciau a gafodd eu riportio

Cafodd **956** o achosion o
ddwyn beiciau eu riportio yng
Nghaerdydd yn 2020/21.

1,440 yn 2019/20

Am bob **184** o bobl sy'n
berchen ar feic oedolyn yng
Nghaerdydd, cafodd **1** beic
ei riportio wedi'i ddwyn yn
ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mynediad at feiciau

59%

o drigolion sydd â
mynediad at feic
pedal oedolyn

60% yn 2019

29%

o gartrefi o fewn
800m i siop feiciau

Diolch i'r Association
of Cycle Traders (ACT)
a Cycling UK am eu
cymorth gyda lleoliadau
siopau beiciau a'r
gwasanaethau a
gynigir.



Mae yna un lle parcio beiciau
cyhoeddus ar gyfer pob **61** o bobl
sy'n beicio yng Nghaerdydd.



60 yn 2019,
pan roedd llai o
bobl yn beicio



Lena Fritsch, Treganna



I fy nheulu a minnau, mae beicio yn rhan hanfodol o'n bywyd bob dydd, oherwydd nid ydym yn berchen ar gar. Rwy'n defnyddio fy meic i fynd i'r dref, siopa, cyfarfod â phobl neu ymarfer corff. Rydyn ni'n aml yn mynd ar deithiau beic teulu, yn ddelfrydol, awn tuag at fyd natur.

Mae ein mab yn reidio ei feic bob dydd yn ein cymdogaeth ac yn falch iawn o feicio i farchnad ffermwyr Riverside gyda mi bob dydd Sul.

Mae gan Gaerdydd lawer o ffyrdd ac ardaloedd o hyd sy'n cael eu dominyddu gan geir ac sy'n gwneud teithio'n brofiad annymunol iawn i feicwyr. Rwy'n aml yn teimlo'n anniogel neu fel nad wyf i fod yno. Mae hefyd yn rhwystredig pan ddaw llwybrau beicio i ben yn sydyn.

Rwy'n credu y byddai llawer mwy o bobl yn dewis beicio yng Nghaerdydd pe bai gwell isadeiledd; mae wedi gwella, ond mae angen mwy arnom o hyd.

Ond yr hyn sydd angen cyd-fynd â hyn, rwy'n credu, yw newid diwylliannol – mwy o ymwybyddiaeth o effeithiau ceir, a beicio fel dewis arall dichonadwy, sy'n well i'n hiechyd ac i'r amgylchedd.

iii. Data llogi beiciau Next Bike. Data 2021 ar gyfer Gorffennaf 2020–Mehefin 2021 (Ffynhonnell: CoMoUK) a data 2019 ar gyfer Gorffennaf 2018–Mehefin 2019 (Ffynhonnell: NextBike).

Atebion cymdogaeth

Beth fyddai'n helpu i wneud cymdogaethau'n well?

Dylai'r holl drigolion deimlo bod croeso iddynt yn eu cymdogaeth

Cyfran y trigolion sy'n teimlo bod croeso iddynt ac sy'n gyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n treulio amser ar strydoedd eu cymdogaeth

69% o'r holl drigolion



68% o fenywod



70% o ddynion



60% o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig



71% o bobl wynion



61% o bobl anabl



73% o bobl nad ydynt yn anabl



62% o bobl LHDQ+



70% o bobl heterorywiol



59% o grŵp economaidd-gymdeithasol DE



80% o grŵp economaidd-gymdeithasol AB



Gall goruchafiaeth cerbydau modur annog pobl i beidio â cherdded, olwyno a beicio

Dim ond 26% o drigolion sy'n meddwl nad yw eu strydoedd yn cael eu dominyddu gan gerbydau modur sy'n symud neu'n parcio.

Byddai trigolion yn gweld llai o gerbydau modur ar eu strydoedd yn ddefnyddiol er mwyn:

67% Cerdded mwy



65% Beicio mwy



Nid yw ffyrdd annosbarthedig wedi'u cynllunio i gludo traffig trwodd, ond yng Nghaerdydd, nid oes unrhyw beth i atal hynny ar hyd 23% o gyfanswm hyd y ffyrdd hyn. Gall hyn arwain at lwybrau tarw ar y ffyrdd hyn.ⁱ

51% yn cytuno y byddai cyfyngu ar draffig trwodd ar strydoedd preswyl lleol yn gwneud eu hardal yn lle gwell.

59% yn 2019

28% o strydoedd Caerdydd â chyfyngiadau cyflymder 20mya.ⁱⁱ

Byddai trigolion yn gweld mwy o strydoedd gyda therfynau cyflymder 20mya yn ddefnyddiol i:

53% Cerdded mwy



51% Beicio mwy



18% yn 2019

55% yn 2019

Mae trigolion eisiau i strydoedd lleol fod yn fannau gwell i bobl dreulio amser ynddynt

76% yn 2019

62%

yn cytuno y byddai creu mwy o le i bobl gymdeithasu, cerdded a beicio ar eu stryd fawr leol yn gwella eu hardal leol

50%

yn cytuno eu bod yn sgwrsio'n rheolaidd â'u cymdogion, yn fwy na dim ond i ddweud helo

65%

yn cefnogi cymdogaethau traffig isel

i. Yn seiliedig ar ddadansoddiad gan CycleStreets www.lowtrafficneighbourhoods.org.

Mae ffyrdd annosbarthedig i gyd yn ffyrdd cyhoeddus nad ydynt yn draffyrdd, yn ffyrdd A, B na C.

ii. Heb gynnwys traffyrdd.

Charlotte Dickenson, Llandaf



Mae beicio i ac o'r ysgol gydag Anna, fy merch, yn ffordd braf o ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol wedi ymlacio. Mae ein llwybr oddi ar y ffordd yn bennaf ac mae'r rhan fwyaf o'n siwrne ar hyd Taith Taf sy'n daith hyfryd, ddi-draffig.

Mae cau stryd ysgol Anna i gerbydau ar amseroedd gollwng a chasglu hefyd yn gwneud i ni deimlo'n fwy diogel, gan fod llai o geir i ymdrin â nhw.

Ond a dweud y gwir, mae ein llwybr go iawn i'r ysgol yn cynnwys Stryd Fawr Llandaf sy'n hunllef! Byddem wrth ein bodd yn gweld rhai newidiadau yn cael eu gwneud yno, gan fod llawer o'r ceir yn rhai enfawr ac yn rhwystro'r ffordd, mae'r gyffordd ar waelod yr allt yn beryg bywyd, yn ogystal â'r troad o'r top i Lôn y Gadeirlan.

Byddai lleihau mynediad cerbydau i'r ardal hon yn help mawr.

Rhaid dylunio cymdogaethau gyda phlant mewn golwg

Dylai cymdogaethau fod yn lleoedd i blant ffynnu ynddynt: i dyfu i fyny ynddynt, i fyw eu bywydau ynddynt ac i heneiddio ynddynt. Mae cynyddu annibyniaeth, darparu lle i chwarae a chymdeithasu, a gwella'r daith i'r ysgol oll yn bwysig.

Pe bydden ni'n dylunio cymdogaethau gyda phlant mewn golwg, buasent yn gweithio'n well i bawb arall hefyd.

12 mlwydd oed

yw'r oedran cyfartalog pan fyddai pobl sy'n byw gyda phlant yn gadael iddynt gerdded neu feicio'n annibynnol yn eu cymdogaeth yw.

Mae dros 80% o blant saith oed yn yr Almaen yn cael mynd ar eu pen eu hunain i leoedd o fewn pellter cerdded, heblaw am yr ysgol (ymatebion rhieni).ⁱⁱⁱ

54% o drigolion yn cytuno bod lle i blant gymdeithasu a chwarae



78% o aelwydydd o fewn 800m i faes chwarae plant




Ymysg trigolion Caerdydd:

46% yn cytuno



56% yn cytuno yn 2019

22% yn anghytuno



23% yn anghytuno yn 2019

Y byddai cau strydoedd y tu allan i ysgolion lleol i geir yn ystod amseroedd gollwng a chasglu ysgol yn gwella eu hardal leol

Gelwir y mathau hyn o gau strydoedd yn 'Strydoedd Ysgol'.

Mae 5 cynllun Strydoedd Ysgol parhaol yn bodoli yng Nghaerdydd^{iv}



iii. Children's Independent Mobility: cymhariaeth ryngwladol ac argymhellion ar gyfer gweithredu, 2015. iv. Mae'r ffigur a roddwyd yn gywir ar 26 Mai 2021. Mae hefyd rhagor o gynlluniau strydoedd ysgol yn cael eu treialu yng Nghaerdydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfanswm hwn.



Datblygu Caerdydd

Newidiadau diweddar i gerdded, olwyno, beicio a chymdogaethau

Ers yr Adroddiad Bywyd Beicio diwethaf, mae Caerdydd wedi ymateb i newidiadau o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r galw am deithio llesol, gyda sawl lôn feicio dros dro a chau strydoedd dros dro yn cynnig gwell defnydd o ofod trefol a chefnogi busnesau i ailagor yn dilyn y cyfnodau o gyfyngiadau symud. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar lwybrau beicio strategol i ddarparu mannau penodol ar gyfer beicio drwy goridorau trafndiaeth allweddol yn y ddinas ac mae mwy o ddefnydd o derfynau cyflymder 20mya ar fwy o strydoedd y ddinas yn gwella amodau cerdded a beicio ar strydoedd mwy lleol.

Mae cynlluniau cau Strydoedd Ysgol wedi'u hamseru wedi cael eu cyflwyno mewn sawl lleoliad yn y ddinas, gan ddefnyddio mesurau gorfodaeth arloesol gyda chamerau traffig yn ogystal ag ymyriadau gyda phresenoldeb i helpu gwneud teithio llesol yn opsiwn mwy deniadol ar gyfer y daith ysgol. Mae'r cyngor hefyd yn ymgysylltu ag ysgolion ar draws y ddinas i gefnogi ei waith o ddatblygu cynlluniau teithio llesol, gosod mannau parcio sgwteri a beiciau newydd a darparu fflydoedd beiciau pwrpasol i ysgolion ar gyfer hyfforddiant beicio a gweithgareddau addysgol sy'n seiliedig ar y cwricwlwm.

Mae patrymau beicio yn y ddinas wedi gweld gostyngiadau mewn cymudo i swyddfeydd yn rheolaidd yn unol â mwy o weithio gartref. I'r gwrthwyneb, yn ystod cyfnodau o gloi, gwelodd y ddinas gynnydd triphlyg yn nodweddiadol mewn teithiau beicio hamdden a hamdden. Rhoddodd hyn bwysau ar rai rhannau o'r rhwydwaith a dangosodd yr angen am fynediad at fannau gwyrdd a chynyddu capasiti mannau ar wahân ar gyfer teithio llesol, yn enwedig beicio. Mae llawer o ardaloedd wedi gweld gwelliant yn ansawdd aer a gostyngiad mewn sŵn traffig o ganlyniad i lefelau is o draffig ceir, ac mae cymunedau lleol yn awyddus i gadw hyn.

“““

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar lwybrau beicio strategol i ddarparu mannau penodol ar gyfer beicio drwy goridorau trafndiaeth allweddol yn y ddinas ac mae mwy o ddefnydd o derfynau cyflymder 20mya ar fwy o strydoedd y ddinas yn gwella amodau cerdded a beicio ar strydoedd mwy lleol.



Llwybrau Beicio Dros Dro

Mae nifer o osodiadau llwybrau beicio dros dro a chynlluniau gofod a rennir wedi'u datblygu o amgylch y ddinas mewn ymateb i gyfyngiadau Covid-19. Er bod rhai elfennau wedi'u dileu ers hynny gan fod cyfyngiadau cloi wedi lleddfu, mae eraill wedi aros ar waith. Mae rhannau helaeth o lwybrau beicio dros dro, a ffurfiwyd gan ddefnyddio goleuadau i wahanu, wedi'u gosod gan gynnwys lôn feicio ddwyffordd bwrpasol ar hyd Stryd y Castell. Mae hwn yn rhan o lwybr beicio ar wahân sy'n rhedeg ar linell dwyrain-gorllewin a fydd yn ymestyn rhwng Leckwith Road yn Nhreganna a Four Elms Road yn Adamsdown.

Gwelliannau i Ganolfannau Cymdogaethau

Roedd gwelliannau teithio llesol yng nghanolfannau cymdogaethau ac ardaloedd yn cynrychioli rhan fawr o ymateb y Cyngor i bandemig Covid 19.

Ceir enghraifft o hyn ar Wellfield Road lle cafodd mannau parcio eu tynnu ar hyd rhannau o'r stryd i greu lle ychwanegol i gerddwyr, mannau eistedd yn yr awyr agored a gosod lôn feicio ar wahân. Mae tybiau planhigion, gwahanu gyda goleuadau a nodweddion eraill wedi'u defnyddio i wahanu rhan o'r ffordd yn ffisegol oddi wrth drafftig a chreu gofod ychwanegol ar gyfer cwsmeriaid busnesau. Bydd cadw'r newidiadau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.



Strydoedd Ysgol

Mae Caerdydd wedi cyflwyno cau strydoedd ysgol wedi'i amseru a'i orfodi mewn 14 lleoliad gyda'r nodau o:

- Lleihau maint y traffig a phroblemau parcio y tu allan i gatiau'r ysgol
- Gwella diogelwch
- Gwella ansawdd yr aer o amgylch safle'r ysgol
- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded ac yn beicio i'r ysgol
- Lleihau nifer y disgyblion sy'n cyrraedd giât yr ysgol mewn car

Mae cau strydoedd yn cael ei orfodi gan gamerâu, gyda phob cerbyd preswyl yn cael trwydded rithwir i ganiatáu mynediad yn ystod amseroedd y cyfyngiadau. Rhoddir hysbysiad gorfodaeth i unrhyw gerbyd sydd heb drwydded sy'n mynd i mewn neu'n gadael y stryd yn ystod y cyfnod cau. Mae'r cynlluniau'n gweithredu ar amseroedd 'danfon a chychu'r ysgol' ac fe'u cefnogir gan dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor sy'n helpu ysgolion i ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol a mentrau Diogelwch Ffyrdd e.e. Hyfforddiant Cerdded, Sgwera a Beicio.

Mae cynlluniau pellach ar y gweill yn amodol ar ymgynghoriad.



Edrych ymlaen

Gwell strydoedd a lleoedd i bawb

Un o effeithiau allweddol Covid 19 a chyfnodau'r cyfyngiadau symud oedd y ffordd y dechreuodd pobl ryngweithio'n wahanol ag amgylchedd eu cymdogaethau lleol drwy ddefnyddio mwy ar siopau lleol, mannau cyhoeddus ac amwynderau eraill a manteisio ar absenoldeb traffig i wneud mwy o deithiau cerdded a beicio lleol. Ategwyd y newidiadau hyn gan y newid sylweddol i weithio gartref/hybrid a oedd yn nodwedd o fywyd yn ystod Covid-19 ond sy'n debygol o ddod yn fwy arferol wrth i ni symud y tu hwnt i'r pandemig.

Mae Caerdydd yn datblygu strategaeth adfer ac adnewyddu sy'n ceisio ymateb i'r newidiadau hyn.

Wrth ganolbwyntio ar adfywio canol y ddinas a chyflawni datblygiadau newydd mawr, bydd y strategaeth yn ceisio bwrw ymlaen â datblygu 'dinas o bentrefi' cydgysylltiol yn seiliedig ar ganolfannau ac ardaloedd lleol trwy eu gwneud yn fwy bywiog, prysur a pherthnasol i gymunedau lleol. Teithio llesol fydd wrth galon y strategaeth hon: bydd darpariaeth gwelliannau teithio llesol a chreu lleoedd lleol yn cael eu cyfuno ag adeiladu prif lwybrau beicio i sicrhau bod gan bobl fynediad haws at amwynderau a swyddi ar garreg eu drws a mynediad cyflym, cynaliadwy i ganol y ddinas ac ardaloedd eraill o'r ddinas.

Mae data arolwg Mynegai Cerdded a Beicio (Bywyd Beicio gynt) yn dangos bod pobl yn cefnogi'r datblygiadau hyn, eu bod eisiau llai o gerbydau modur ar strydoedd a'u bod yn cefnogi cyflwyno terfynau cyflymder 20mya, yn enwedig ar gyfer annog mwy o gerdded ar gyfer teithiau bob dydd. Yn gyffredinol mae pobl yn dal i deimlo'n ddiogel yn cerdded ac mae cyfle i adeiladu ar hyn er mwyn gwneud y ddinas yn fwy gwyrdd a datblygu mwy o le ar gyfer teithio llesol.

“““


Teithio llesol fydd wrth galon y strategaeth hon: bydd darpariaeth gwelliannau teithio llesol a chreu lleoedd lleol yn cael eu cyfuno ag adeiladu prif lwybrau beicio i sicrhau bod gan bobl fynediad haws at amwynderau a swyddi ar garreg eu drws a mynediad cyflym, cynaliadwy i ganol y ddinas ac ardaloedd eraill o'r ddinas.

Mae uchelgeisiau Caerdydd i ehangu darpariaeth cynlluniau teithio i'r ysgol ac ymyriadau megis Strydoedd Ysgol, yn sail i'r rôl hanfodol y mae ysgolion yn ei chwarae wrth annog teithio llesol o oedran cynnar a'r angen i fynd i'r afael â'r problemau sylweddol o ran lefelau traffig a achosir gan y daith ysgol.

Bydd datblygiad parhaus y rhwydwaith beicio strategol yn rhan allweddol o fuddsoddiad teithio llesol yn y ddinas yn y dyfodol, gan adeiladu ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i gysylltu canol y ddinas â chanolfannau rhanbarthol i'r dwyrain a'r gorllewin yn ogystal â rôl coridorau allweddol Heol y Gogledd a Llwybr Taf. Mae gwaith ar goridor yr A48 sy'n cysylltu â Chasnewydd yn rhoi cyfle i gysylltu rhwydwaith ehangol Caerdydd â'r ddinas gyfagos a darparu coridor cymudo allweddol.

Bydd nifer o lwybrau beicio dros dro a gyflwynwyd yn ystod y pandemig yn cael eu gwneud yn barhaol, gan gynnwys llwybrau beicio drwy ganol y ddinas ac ar Heol Casnewydd, gan gysylltu â llwybrau beicio sydd eisoes wedi'u hadeiladu neu wrthi'n cael eu hadeiladu drwy'r rhaglen Llwybrau Beiciau. Bydd Caerdydd hefyd yn parhau i uwchraddio rhannau o'r rhwydwaith beicio presennol, gan gynnwys llwybrau a ddefnyddir yn aml fel Taith Taf, er mwyn darparu ar gyfer lefelau cynyddol o ddefnydd yn well.

Yn ogystal, mae cyflwyno terfynau 20mya rhagosodedig ar ffyrdd preswyl a chyfyngiadau ar barcio ar balmentydd yn fentrau cenedlaethol a allai gael effaith gadarnhaol ar lefelau cerdded a beicio yng Nghaerdydd yn y dyfodol.



Issayas Tsegay, Y Rhath



Rwy'n wreiddiol o Eritrea, Dwyrain Affrica ac mae beicio wedi bod yn un o fy hobiau ers pan oeddwn yn bum mlwydd oed. Roeddwn i'n beicio i bobman yn Eritrea a gyda'r ffyrdd mor dawel o ran traffig, roedd mor ddiogel ag y gallai fod i feiciwr. Y rhesymau rydw i'n beicio i'r gwaith yw er mwyn cael rhywfaint o ymarfer corff, lleihau fy ôl troed carbon a diffyg trafndiaeth gyhoeddus.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, ers cyrraedd y DU, rwyf hefyd wedi ceisio beicio ar gyfer y rhan fwyaf o'm gweithgareddau. Yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnes i feicio i'r gwaith bron bob dydd. Mae'n daith hawdd iawn, sydd ond yn cymryd 30 munud, ond mae rhai ardaloedd lle rydw i'n aml yn poeni am fy niogelwch. Y prif beryglon yw gyrwyr yn gyrru'n rhy gyflym ac yn rhy agos at feicwyr.

Roedd beicio yn ystod y cyfyngiadau symud yn gymharol ddiogel gan fod llawer llai o geir ar y ffyrdd. Un o'r prif bethau y gellir ei wneud i fy annog i a phobl fel fi i feicio mwy yw cael lonydd beicio pwrpasol.

Nodiadau ar fethodoleg:

Cynhaliwyd yr arolwg agwedd rhwng Mehefin ac Awst 2021 gan y sefydliad ymchwil cymdeithasol annibynnol NatGen.

Mae'r arolwg yn gynrychioliadol o holl drigolion Caerdydd, nid dim ond y rhai sy'n cerdded neu'n beicio.

Casglwyd data arolwg 2019 rhwng Ebrill a Gorffennaf 2019, hefyd gan NatGen, gan ddilyn yr un fethodoleg.

Daw'r holl ddata arall oddi wrth ein partneriaid dinas, setiau data cenedlaethol neu cawsant eu modelu a'u cyfrifo gan Sustrans.

Mae amcangyfrifon teithio'n defnyddio model a ddatblygwyd gan Sustrans. Wrth gymharu ag arolygon teithio eraill, gall fod rhywfaint o amrywiaeth yng nghyfran y teithiau sy'n cael eu beicio yn ôl pwrpas y siwrne.

Defnyddiwyd talgrynnu drwy gydol yr adroddiad. Mewn llawer o achosion rydym wedi talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Osgoir talgrynnu lle gallai hyn achosi dryswch, er enghraifft gydag amcangyfrifon wedi'u modelu a ddangosir yn yr adrannau crynodeb a buddion.

Mae rhagor o wybodaeth a methodoleg fanwl ar gael ar www.sustrans.org.uk/walkingcyclingindex

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio.

Rydym yn cysylltu pobl a lleoedd, yn creu cymdogaethau y gellir byw ynddynt, yn trawsnewid y daith i'r ysgol ac yn darparu taith gymudo hapusach ac iachach. Ymunwch â ni ar ein taith. www.sustrans.org.uk

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU Rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban)

© Sustrans Mai 2022

© Ffotograffau: Jonathan Bewley, ac eithrio penddarlun tudalen 2: Katrina Dimech.

Diolch i Open Route Service am eu cefnogaeth gyda'u ategyn isochrone yn QGIS.



Argraffwyd gyda 100% ynni adnewyddadwy gan ddefnyddio proses ddi-alcohol ac inc wedi'i wneud o blanhigion

Ariennir Mynegai Cerdded a Beicio Caerdydd gan Sefydliad Freshfield a Chyngor Caerdydd. Cydlynir y prosiect gan Sustrans.

